Annwyl Bawb

E-FWLETIN 11 GORFFENNAF 2008

Dyma'r e-fwletin diweddaraf yn cynnwys y newyddion diweddaraf am Morlan a manylion am yr hyn sy'n digwydd yma dros yr wythnosau nesaf.

- Prynhawn Sadwrn (12 Gorffennaf) mae cangen leol yr Ymgyrch Ymchwil i Arthritis yn cynnig **Te Mefus** am £3.00 rhwng 2 o'r gloch a 4 o'r gloch er mwyn codi arian i'r elusen.
- Bydd **Grŵp Trawsnewid Tref Aberystwyth** yn cyfarfod yma nos Lun, 14 Gorffennaf – o 6.30 i 9.00.
- Hefyd, er nad yw'n ddigwyddiad i'r cyhoedd, bydd **Seremoni Graddio UMCA** yn cael ei gynnal ym Morlan eleni – a hynny o 5.30 i 7.00 ar nos Fercher, 16 Gorffennaf.
- Yna, ddydd Iau, 17 Gorffennaf, bydd cyfarfod misol nesaf **Prifysgol y Drydedd Oes** am 2.30 gyda siaradwr gwadd.
- Bydd **ras beicio mynydd** yn dechrau o draeth Aberystwyth ddiwedd y mis, ac ym Morlan y bydd y cystadleuwyr yn cofrestru ac yn cael eu briffio. Bydd hynny'n digwydd ar nos Wener a bore Sadwrn, 25-26 Gorffennaf.
- Yn ein harwain o Orffennaf i Awst bydd dwy noson o adloniant Celtaidd wedi'u trefnu gan Gyngres Geltaidd 2008. Cyngerdd Ieuenctid fydd ar y nos Iau (31 Gorffennaf) ac ymhlith yr artistiaid bydd yn cymryd rhan y mae Côr Aelwyd Ger y Lli, Emyr Evans a Mared Emyr Pugh-Evans o Gymru a The Reeling Stones o Ynys Manaw. Yna ar y nos Wener (1 Awst), bydd Cyngerdd Rhyngwladol Celtaidd gyda Griogair Labhruidh o'r Alban, Philippe Brosse a Youenn Guillanton o Lydaw, Ensemble Ysgol y Delyn Bro Ystwyth, Morys Ioan a Dafydd Jones o Gymru, Éanna Ó Croínin a Deirdre Nic Éanruig o Iwerddon, Mike O'Connor o Gernyw a The Reeling Stones o Ynys Manaw. Mae'r ddwy noson yn dechrau am 8 o'r gloch.
- Manteisir ar y cyfle hwn hefyd i'ch rhaghysbysu am ddau ddyddiad i'ch dyddiaduron. Ar nos Sadwrn, 27 Medi bydd Cwmni Theatr Cydweithredol Troed y Rhiw yn perfformio ***Blodeuwedd*** Saunders Lewis yma, ac ar y nos Lun ganlynol (29 Medi) bydd y nesaf yn y gyfres **Dweud ei Ddweud** pan fyddwn yn croesawu'r Athro Gareth Wyn Jones i siarad am *"Tswnamis Bach a Mawr"* sy'n deillio o'r ymatebion gwrthgyferbyniol i tswnami cefnfor India rhai blynyddoedd yn ôl.

Er gwybodaeth hefyd, mae Pwyllgor Rhaglen Morlan wrthi'n trefnu sawl digwyddiad o gwmpas Diwrnod Iawnderau Dynol (10 Rhagfyr) er mwyn dathlu trigeinfed pen-blwydd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi llunio gwefan arbennig i nodi'r achlysur ble mae modd i chi arwyddo'r Datganiad. Bwriadwn roi manylion am ddigwyddiadau Morlan yma unwaith y bydd gwybodaeth bendant gennym. Cliciwch yma i ddarllen mwy.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr